PARC CENEDLAETHOL ERYRI
lle i enaid gael llonydd
SNOWDONIA NATIONAL PARK
one of Britain's breathing spaces

Cyswllt · Contact: Aneurin Phillips
Ffôn · Telephone: 01766 772 202
Ein cyf · Our ref: AP/RLR
Eich cyf · Your ref:
Dyddiad · Date: Mehefin 3 June 2013
e-bost · e-mail: Aneurin.phillips@eryri-npa.gov.uk

Grwp Mynediad Traphont Abermaw / Barmouth Viaduct Access Group,
C/O Dr. J. Smith,
Bron-y-Graig,
Church Street,
Barmouth,
Gwynedd. LL42 1DD

Annwyl Dr. Smith,
(ar ran Prosiect Traphont Abermaw)

Hoffwn ddiolch i chi am eich gohebiaeth yn ddiweddar ynglŷn â Phrosiect Traphont Abermaw ac am roi cyfle i swyddogion yr Awdurdod gael dysgu mwy am y prosiect.

Rwy'n deall, ac yn gwerthfawrogi, eich pryderon ynglŷn â chyflwr presennol y mynediad i/o Lwybr Mawddach (ger yr aber) i mewn i Abermaw. O'r sgyrsiau a gefais ynghylch y prosiect gyda'r swyddogion perthnasol, ni allaf ond mynegi ein cefnogaeth am brosiect a fydd yn arwain at bwynt mynediad sy'n fwy diogel ac addas.

Yn ychwanegol at ystyriaethau diogelwch a mynediad, gallai adeiladu'r draphont arfaethedig ddod â buddion cymdeithasol ac economaidd pellach i Abermaw a'r cymunedau eraill sydd gerllaw - gan gynnwys y rhai ym Mharc Cenedlaethol Eryri. Er bod y safle dan sylw y tu allan i ffin y Parc Cenedlaethol, mae'n amlwg yn gysylltiedig â'r Llwybr Mawddach poblogaidd, ac mae ganddo gysylltiadau anffurfiol â Ffordd Ardudwy; gan hynny, byddai'r Awdurdod yn falch o barhau i fod yn gysylltiedig â'r prosiect.

Byddwn yn ddiolchgar petaech yn parhau i ohebu â ni ynglŷn â'r mater hwn.

Dear Dr. Smith,
(on behalf of the Barmouth Viaduct Project)

Thank you for your recent correspondence regarding the Barmouth Viaduct Project and affording officers from my Authority an opportunity to learn more about the project.

I understand and appreciate your concerns regarding the present condition of access to and from the estuary-end of the Mawddach Trail into Barmouth. From the conversations I've held with relevant officers regarding the project, I can only express our support for a project which will lead to a safer and more suitable access point.

In addition to safety and access considerations, construction of the proposed viaduct could bring further social and economic benefits to Barmouth and other nearby communities – including those within Snowdonia National Park. Although the site under consideration is beyond the National Park boundary, it is inexorably linked to the popular Mawddach Trail and has informal linkages to the Ardudwy Way; with this being the case, the Authority would be pleased to continue its association with the project.

I would be grateful for your continued correspondence on the matter.

Yn gywir / Yours sincerely,

**Aneurin Phillips**
**Prif Weithredwr / Chief Executive**